Enw _____

DARLLENWCH
Mathew 2: 1-12

ADNOD
ALLWEDDOL
Mathew 2: 11

Astudiaeth 3 Addoli Brenin

Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen

Eseia 60: 1-3 Salm 72: 10 ac 11 Datguddiad 5: 11 a 12

Pan fydd babi'n cael ei eni i deulu, mae pawb am gael gwybod pob dim amdano!

Sut mae'r fam?

Ai bachgen neu ferch yw'r babi?

Faint oedd pwysau'r babi?

Beth yw'r enw?

Roedd y Brenin Herod eisiau gwybod pob manylyn posibl gan y dynion hyn oedd yn sôn am Frenin newydd Ei eni.

C Atebwch y cwestiynau y byddai Herod, o bosibl, wedi eu gofyn.

Pwy yw'r dynion hyn? _____

O ble daethon nhw? _____

Gan beth y cawsant eu harwain mor bell? _____

Beth maen nhw'n awyddus i'w wneud ar ôl dod o hyd i'r Brenin newydd? _____

I ble dylen nhw fynd? _____

5

Dynion doeth oedd yn astudio'r sêr oedd y teithwyr hyn. Roedd eu gwaith ymchwil wedi dangos iddynt y byddai Brenin yn cael Ei eni. Roedden nhw'n meddwl mai mewn palas y câi'r Brenin hwn Ei eni. Dyna chi glamp o gamgymeriad!

C Disgrifiwch sut roedd Herod a gweddill trigolion Jerwsalem yn teimlo pan glywsant y newyddion.

_____

1



Yn wahanol i'r bugeiliaid, doedd y Brenin Herod ddim yn hapus o gwbl pan glywodd am enedigaeth yr Arglwydd Iesu. Credai, mae'n siŵr, y byddai'r 'Brenin newydd' hwn yn cipio'i orsedd. Felly, dechreuodd gynllwynio i gael gwared Arno! Gallwch ddarllen yn efengyl Mathew 2: 13-18 am yr hyn wnaeth y Brenin Herod i geisio lladd yr Arglwydd Iesu. Mae nifer heddiw hefyd yn gwrthod croesawu'r Arglwydd Iesu. Eto, mae Ef yn dal i ddymuno bod yn Frenin ar eich bywyd. Wnewch chi ganiatáu Iddo Ef reoli drosoch chi? Er bod yr Arglwydd Iesu dan ddwyflwydd oed, gwyddai'r doethion Ei fod yn blentyn arbennig. Roedden nhw'n Ei ystyried yn Frenin.

C Pan ddaethant o hyd i'r Arglwydd Iesu, pa dri pheth wnaethon nhw? (gweler adnod 11)

1 _____

2 _____

3 _____

3

C **Nawr ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.**

2

CROESAIR

Gosodwch eich atebion i'r cliwiau canlynol yn y Croesair.
Mae rhai llythrennau eisoes wedi eu cynnwys er mwyn eich helpu i osod y geiriau yn y blychau cywir.

1. Galwodd Herod am y rhain (dau air).
....
2. Arweiniwyd y doethion gan hon.....
.
3. Un o anrhegion y doethion.
..... .
4. Anrheg arall a roddwyd gan y doethion.
..... .

5. Ac un anrheg eto oddi wrth y doethion! ..... .

6. Teitl y person a ysgrifennodd adnod 6
(gweler adnod 5..... .



6

C **Edrychwch ar yr adnodau canlynol ac YN EICH GEIRIAU EICH HUN, ysgrifennwch beth allwch chi ei wneud i anrhydeddu'r Arglwydd Iesu, fel y gwnaeth y doethion.**

Ioan 6: 29

1

Ioan 13: 34

1

Ioan 14: 15

1